Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

25 Gorffennaf 2008

Annwyl gyfaill,

**Ymgynghoriad - Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Darparu Gwasanaethau Bysiau a Choetsys**

Yn dilyn fy llwyddiant mewn balot deddfwriaethol a gynhaliwyd yn y Cynulliad, ysgrifennaf atoch i roi gwybod fy mod ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad i'm cynnig i sicrhau Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch darparu gwasanaethau bysiau a choetsys yng Nghymru.

Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth ar gyfer y cynigion terfynol a wneir ar gyfer y Gorchymyn arfaethedig yr wyf yn gobeithio ei gyflwyno gerbron y Cynulliad fel y gellir ei ystyried yn ystod tymor yr hydref.

Amgaeaf gopi o'r ddogfen ymgynghori fel rhan o'r e-bost hwn ac fe'i gwelir hefyd ar wefan y Cynulliad drwy ymweld â'r cyfeiriad canlynol: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lcos-buscoach.htm.
Os byddai'n well gennych gael copïau papur o'r dogfennau ymgynghori, cysylltwch â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad. Ceir y manylion ar gyfer cysylltu isod.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ystyried y cwestiynau penodol a geir yn Rhan 6 y ddogfen ymgynghori.

I gyflwyno'ch ymateb, gofynnir i chi anfon copi electronig i: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhoi 'Consultation Proposed Provision of Bus and Coach Services LCO' fel pennawd eich e-bost.

Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar bapur, gofynnir i chi ei anfon at: Sarah Beasley, Clerc, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208**
**Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch ymateb yw 12 Medi 2008.** Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi gadw'r canlynol mewn cof:

- Byddem yn gwerthfawrogi ymatebion cryno. Byddwch cystal â defnyddio'r teitl a nodir uchod ar eich ymateb.

- Bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn darparu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'w craffu gan y cyhoedd, a gellir hefyd eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol. **Os nad ydych yn dymuno cael eich ymateb neu eich enw wedi'i gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny ar ddiwedd eich cyflwyniad.**

- Gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.

- Gofynnir i chi nodi a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar gerbron pwyllgor yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r clerc, Sarah Beasley, ar (029) 2089 8032.

Yn gywir



Huw Lewis AC

**Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208**
**Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**